VANGUARDIA
A BURO HAPPOLD COMPANY

**Crynodeb Gweithredol - Asesiad Sŵn**

Mae Vanguardia Limited wedi'i gomisiynu gan Anglesey Land Holdings Ltd i ymgymryd ag asesiad sŵn i gefnogi'r cais cynllunio amgylcheddol ar gyfer datblygu hyd at 238,000 metr sgwâr o ardal fewnol gros yn cynnwys at bwrpasau sy'n cynnwys canolfannau data (dosbarth defnydd B8), swyddfeydd a gofod ymchwil a datblygu (dosbarth defnydd B1), a stori ynni batri (defnydd Unigryw) ym Mharc Ffyniant, Penrhos, Ynys Môn, Cymru (cyn-safle Gwaith Alwminiwm Penrhos).

Yn wahanol i'r defnydd storio a dosbarthu B8 traddodiadol, mae'r gweithgarwch HGV sy'n gysylltiedig gyda chanolfannau data yn fach iawn, ac yn lle hynny, mae'r prif ffynonellau sŵn yn cynnwys yr adeilad sy'n ofynnol er mwyn cynnal yr amodau mewnol priodol o ran tymheredd a llif aer.

Pwrpas yr asesiad sŵn yw trafod y polisi a'r canllawiau cynllunio perthnasol, darparu manylion am arolwg sŵn yr ymgymerwyd ag o ar safle'r Datblygiad Arfaethedig ac yn yr ardal o amgylch, a diffinio lefelau cyfraddau targed addas ar gyfer sŵn gweithredol a gynhyrchir gan y Datblygiad Arfaethedig gerllaw derbynyddion preswyl presennol y gellir cyfeirio atynt yn y ceisiadau materion a gedwir yn ôl (RMAau). Trafodir manylion opsiynau lliniaru posib yn ogystal.

Cydnabyddir bod y cais hwn yn cael ei gyflwyno'n amlinellol, a phe bai'r datblygiad yn cael caniatâd, byddai RMAau yn cael eu cyflwyno er mwyn penderfynu ar fanylion terfynol pob plot o'r datblygiad. Fel rhan o'r RMAau, bydd traweffaith sŵn yn codi o bob plot a'r Datblygiad Arfaethedig yn ei gyfanrwydd, yn cael ei ailasesu unwaith y bydd gwybodaeth weithredol ar gael a lle mae'n briodol, rhoddir ystyriaeth i fesurau lliniaru.

Ymgymerwyd ag arolwg sŵn sylfaenol o amgylch safle'r Datblygiad arfaethedig ym mis Hydref 2023 mewn lleoliadau sy'n gynrychioladol o'r derbynyddion sensitif i sŵn (NSRau). Yn seiliedig ar ganlyniadau'r arolwg sŵn, mae lefelau sŵn cefndirol arferol yn lleoliad pob NSR wedi eu cyfrifo.

Gan ddefnyddio'r lefelau sŵn cefndirol arferol a'r fethodoleg y manylir arni yn y Safon Brydeinig BS4142:2015+A1:2019, mae lefelau cyfradd darged ar gyfer sŵn gweithredol cronnol o'r Datblygiad Arfaethedig (h.y. y lefel sŵn cyfunol o'r holl ffynonellau sy'n gysylltiedig gyda gweithrediad y Datblygiad Arfaethedig) yn y NSRau wedi cael eu hadnabod. Drwy beidio â mynd y tu hwnt i'r lefelau cyfradd darged, ystyrir bod y sŵn gweithredol o'r Datblygiad Arfaethedig yn cydymffurfio gyda holl amcanion perthnasol Polisi Cynllunio Cymru, gan gynnwys o ran seinweddau. Fel y nodwyd yn flaenorol, gellir cyfeirio at y lefelau cyfradd darged mewn ceisiadau yn y dyfodol ar gyfer materion a gedwir yn ôl wrth ystyried sŵn gweithredol. Mae opsiynau lliniaru, megis sgrinio, hefyd wedi eu trafod.

Nodir bod cais cynllunio amlinellol ar gyfer system storio ynni batri (BESS) ar y safle, sy'n debyg i'r hyn a gynigir yn y cais hwn, wedi'i gymeradwyo gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mis Ionawr 2924 (cyfeirnod cynllunio OP/2023/8). Mae'r lefelau rhagweladwy o sŵn gweithredol a gynhwysir gyda'r cais hwnnw, ac nad oedd ag unrhyw fesurau lliniaru yn eu lle, ymhell islaw'r lefelau cyfradd darged ar gyfer sŵn gweithredol yn yr adroddiad hwn, gan ddynodi bod y safle'n addas at bwrpas y defnydd hwn mewn egwyddor.